Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Coedwigoedd Bannau Brycheiniog
Brecon Beacons Forests

# Owl's Grove

## Croeso i Owl's Grove yng Nghoedwig Taf Fechan
### ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r goedwig hon, sy'n 864 hectar (2135 erw), wedi'i lleoli ar drothwy Merthyr Tudful a chymunedau eraill yng Nghymoedd De Cymru. Cafodd dyffrynnoedd dwfn fel hyn eu cerfio dros filoedd o flynyddoedd i dirwedd o fryniau tywodfaen haenog. Nodweddion y dirwedd yw'r coedwigoedd, gweunydd, cronfeydd dŵr, creigiau brown, nentydd a sgydau.

## Welcome to Owl's Grove in the Taf Fechan Forest
### in the Brecon Beacons National Park

This 864-hectare (2135 acres) forest lies on the doorstep of Merthyr Tydfil and other communities in the South Wales Valleys. Deep valleys like this were carved over millennia into a landscape of layered sandstone hills. The landscape is characterised by forests, moors, reservoirs, brown rocks, streams and waterfalls.




Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100019741.
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100019741.

## Beth allwch ei wneud o'r fan hon

**I'r rhai sy'n gallu darllen mapiau'n fedrus ac sydd â'r cyfarpar iawn: Mae llwybr sy'n cael llawer o ddefnydd i fyny i Ben y Fan, sef y mynydd uchaf yn ne Prydain sy'n 886m / 2907tr (mae'r Wyddfa yn 1085m a Ben Nevis yn 1344m).**

Llwybr eiconig arall i'r rheiny sy'n gallu darllen mapiau'n fedrus ac sydd â'r map Explorer 1:25000 yw taith gerdded **Pedol Bannau Brycheiniog** (17km / 10½ milltir: 5-6 awr) sy'n cynnwys copaon Cribyn, Pen y Fan a Chorn Du. Sicrhewch fod gennych offer addas ar gyfer y mynyddoedd a'ch bod wedi gwirio'r rhagolygon tywydd. I ymuno â'r llwybrau mynyddig, cewch i Faes Parcio Neuadd, a darllenwch y cyfarwyddiadau ar y panel gwybodaeth am sut i ymuno â'r Bwlch ar y Fan.

### Ffordd Bwlch ar y Fan

Daw'r enw Saesneg ar gyfer 'Gap Road' o'r Gymraeg Bwlch ar y Fan. Roedd y llwybr gwreiddiol o'r gogledd i'r de ar draws Bwlch ar y Fan yn wreiddiol yn ymestyn ar draws y dyffryn, sydd bellach o dan y gronfa ddŵr. Yn ddiddorol ar fap yr OS gallwch weld mai enw'r nant sy'n llifo i mewn i ben y gronfa ddŵr yw Nant yr Hen Heol. Cafodd y llwybr newydd ei adeiladu i'r dwyrain o'r gronfa ddŵr ar hyd Tor Glas fel rhan o ddatblygiad cronfa ddŵr Neuadd Isaf yn y 1880au.

Gweler y map am gyfleoedd hamdden eraill gerllaw, fel **Rheilffordd Mynydd Brycheiniog** a llwybrau beicio pellter hir **Lôn Las Cymru** a **Taith Taf**.

Os nad ydych yn teimlo'n arbennig o egnïol, mae gennym sawl maes parcio lle gallwch gael picnic ac ymlacio.

## What you can do from here

**For skilled, well-equipped, map readers: There is a well-used path from here up to Pen y Fan, the highest mountain in southern Britain at 886m / 2907ft (Snowdon is 1085m and Ben Nevis 1344m).**

Another iconic route for skilled map readers with the 1:25000 Explorer Map is the **Brecon Beacons Horseshoe Walk** (17km / 10½ miles: 5-6 hours) which takes in the summits of Cribyn, Pen y Fan and Corn Du. Please make sure you are equipped for the mountains and have checked the weather forecast. To join these mountain routes head for the Neuadd Car Park and read the instructions on the panel on how to join the Gap Road.

### Mind the 'Gap Road'

The English name for the 'Gap Road' comes from the Welsh Bwlch ar y Fan – pass on the peaks. The original north-south route across Bwlch ar y Fan originally ran in the valley, now under the reservoir. Interestingly on the OS map you can see that the stream running into the top of the reservoir is called Nant yr Hen Heol – stream of the old road. The new trackway was built to the east of the reservoir along Tor Glas as part of the development of Lower Neuadd reservoir in the 1880s.

Please see the map for other nearby recreational opportunities such as the **Brecon Mountain Railway** and the **Lôn Las Cymru** and **Taff Trail** long distance cycle routes.

If you aren't feeling that energetic, we have a number of car parks for picnicking and relaxing in.




## Llwybr Afon Taf Fechan
## Taf Fechan River Walk

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 1¼m | 2km
Amser | Time: ¾ awr | hour

**Uchafbwyntiau: Cerdded ar hyd afon fyrlymus Taf Fechan**

Croeswch y ffordd i ymuno â'r daith gerdded gylchol hon i fynd am dro ar hyd Afon Taf Fechan at Neuadd Birch, hen ysgubor sydd bellach yn fwthyn bach (archebwch drwy Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000). Dilynwch y llwybr drwy faes parcio Pont Cwmyfedwen ac yna i fyny ffordd y goedwig. Yna anelwch i lawr llethr byr drwy goed at hen fferm. Manteisiwch ar y fainc i edmygu'r golygfeydd cyn anelu yn ôl i lawr at y maes parcio hwn.

**Highlights: Walking along the bubbling Taf Fechan River**

Cross the road to join this circular walk with a gentle stroll along the Taf Fechan River past Birch Hall, an old barn now a bothy (book through NRW on 0300 065 3000). Follow the trail through Pont Cwmyfedwen car park and then up the forest road. Then head right down a short descent through the trees to an old farmstead. Take advantage of the bench to admire the views before heading down back to this car park.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




## Pam y mae gan gronfeydd dŵr goedwigoedd o'u cwmpas yn aml?

Er mwyn amddiffyn ansawdd dŵr y cronfeydd dŵr, prynodd Corfforaeth y Ddinas a oedd angen y dŵr y tir o gwmpas y gronfa ddŵr arfaethedig – a symud unrhyw breswylwyr oddi yno. Yna, prydleswyd llawer o'r tir i'r Comisiwn Coedwigaeth, a blannodd goed conwydd anfrodorol gan y byddent yn tyfu'n gyflym, yn sefydlogi'r tir ac yn lleihau dŵr ffo. Mae'r coed hyn yn darparu adenillion da o werthu coed hefyd.

## Why do reservoirs often have forests around them?

To protect the reservoirs' water quality, the City Corporation where the water was needed bought the land around the proposed reservoir – and moved any inhabitants off it. Much of it was then leased to the Forestry Commission, who planted non-native conifers as they would grow quickly, stabilise the ground and reduce surface run off. These trees also provide a good return from timber sale.

BANNAU BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL
BRECON BEACONS
OUR NATIONAL PARK

## Croeso i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – ardal sy'n orlawn o antur, natur, golygfeydd diguro a chymunedau amrywiol.

Gyda'r nos mae hi'n tywyllu gymaint yma fe gydnabyddir y Bannau Brycheiniog yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol. Mae'n gartref hefyd i Geoparc Byd-eang UNESCO y Fforest Fawr sy'n dathlu cyfoeth treftadaeth naturiol a diwylliannol y fro.

## Welcome to Brecon Beacons National Park – an area brimming with adventure, nature, breath-taking scenery and varied communities.

At night it gets so dark here that the Brecon Beacons is recognised as an International Dark Sky Reserve. It is also home to the Fforest Fawr UNESCO Global Geopark, celebrated world-wide for its rich natural and cultural heritage.

www.breconbeacons.org

Brecon Beacons
DARK SKY RESERVE
GWARCHODFA AWYR DYWYLL
Bannau Brycheiniog

www.breconbeacons.org/stargazing

FFOREST FAWR GEOPARK

Cymdeithas Cenhedloedd Unedig Addysg Gwyddoniaeth a Diwylliant • Fforest Fawr Geoparc UNESCO byd-eang

United Nations Educational, Scientific and Cultural Organization • Fforest Fawr UNESCO Global Geopark

www.geoparcyfforestfawr.org.uk
www.fforestfawrgeopark.org.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

- parcio / parking
- gwybodaeth / information
- sgwd (rhaeadr) / waterfall
- castell / castle
- gorsaf fysiau / bus station
- Dŵr Cymru / Welsh Water
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol / National Trust
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / Brecon Beacons National Park Authority
- Ffin Parc Cenedlaethol / National Park Boundary
- ffin Geoparc / Geopark boundary
- Ffordd y Bannau / Beacons Way
- Llwybr Cerddwyr Taith Taf / Taff Trail walkers route
- Taith Taf / Taff Trail
- llwybr cyhoeddus / public footpath
- cilffordd cyfyngedig / restricted byway
- llwybr marchogaeth / bridleway
- llwybrau cerdded / walking trails

MENTRO'N GALL CYMRU
ADVENTURE SMART WALES
www.adventuresmartwales.com

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

4049.03.19.DUR